

# HER

Pryd mae chwarae gemau a gamblo yn dod yn broblem? Sut beth yw hynny?

©YGAM 2020: All rights reserved

YGAM resources

# AMCANION DYSGU

- Deall beth mae niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo yn ei olygu
- Deall effaith ehangach niwed sy’n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo
- Adnabod arwyddion niwed sy’n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo
- Gallu gweld sut a ble i gael help



©YGAM 2020: All rights reserved

YGAM resources

# DEILLIANNAU DYSGU

- Rydw i'n gallu diffinio niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo
- Rwy'n deall effaith niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo
- Rydw i'n gallu adnabod arwyddion niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo
- Rydw i'n gwybod ble i gael help os ydw i'n poeni am fy mherthynas i neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo.



©YGAM 2020: All rights reserved

# GWEITHGAREDD: CADW LLYGAD AM ARWYDDION



Mewn grwpiau, trafodwch y canlynol:

- Sut beth yw niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau a gamblo?
- Ydych chi'n gallu dweud os ydy rhywun yn dioddef niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau neu gamblo?


Gan ddefnyddio'r adnoddau a ddarparwyd, edrychwch ar y gwahanol arwyddion niwed chwarae gemau/gamblo a'u rhoi o dan y pennawd cywir. Beth sy'n debyg /yn wahanol rhyngddynt?

- Niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau
- Niwed sy'n gysylltiedig â gamblo

©YGAM 2020: All rights reserved

# GWEITHGAREDD: CANFOD YR ARWYDDION


## Tasg 1:



Gan weithio mewn parau, darllenwch bob cerdyn senario ac ystyried a yw'r unigolyn dan sylw'n dioddef niwed. Rhowch eich cerdyn ar y golau traffig fel sy'n briodol a thrafodwch eich rhesymau.

- Coch - dioddef niwed
- Oren - mewn perygl
- Gwyrdd - ddim yn dioddef niwed a ddim mewn perygl

## Tasg 2:



Ydych chi'n credu ei bod hi'n haws neu'n anoddach adnabod arwyddion niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau/gamblo o'i gymharu â niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau, alcohol neu dybaco? A oes unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau? Eglurwch eich barn.

©YGAM 2020: All rights reserved

YGAM resources

# GWEITHGAREDD: HELP LLAW



Trafodwch a rhannwch eich meddyliau:

- Ydyn chi'n meddwl y byddech chi'n sylwi ar arwyddion o niwed sy'n gysylltiedig â chwarae gemau/gamblo ymysg eich ffrindiau?
- A yw'n haws neu'n anoddach i'w adnabod o gymharu â phethau eraill a allai achosi niwed, ee alcohol, tybaco, cyffuriau anghyfreithlon.
- Meddyliwch am bum lle y gallech chi fynd am help os ydych chi'n poeni am eich perthynas eich hun neu berthynas rhywun arall â chwarae gemau neu gamblo.

©YGAM 2020: All rights reserved

YGAM resources